Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Pistyll.

Nos Fawrth, 13 Mai 2025 am 7 o'r gloch yn y Ganolfan.

Presennol: Griffith Jones, Jina Gwyrfai, Lois Fychan, Olwen Roberts, Sianelen Pleming, William Jones, Gethin Jones (cadeirydd).

| | |
|---|---|
| **1.** | Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan GJ a chytunodd SP i gymryd cofnodion. |
| **2.** | Ymddiheuriadau: |
| **3.** | Datgan Diddordeb: neb |
| **4.** | Cyflwynwyd a mabwysiadwyd cofnodion mis Ebrill. Cywiriad i oriau Gillian £340 nid £34.<br><br>OR cynnig, GJ yn eilio. |
| **5.** | <u>**Materion yn codi**</u><br><br>a) 'Deed of Easement' (SP)<br>Einir Young wedi gofyn i JG gael dod i'r pwyllgor.<br>• **Penderfynwyd bod y mater yn nwylo y cyfreithwyr ac nid oedd dim arall i'w ateb. (OW yn cynnig, OR yn eilio).**<br>b) Llecynnau angen eu harddu (SP)<br>Cynigodd SP gael cyfarfod arall i ddechrau hyn o'r newydd yn dilyn cael clerc newydd. Mae'r arian oedd ar gael cynt wedi mynd erbyn hyn.<br>Trafodwyd y gallai'r cyngor fabwysiadu y tir ond roedd oblygiadau diogelwch i hyn.<br>• **Penderfynwyd codi'r mater eto pan fydd clerc wedi ei benodi fedar ddilyn y mater ymlaen.**<br>c) Cofrestru PAYE (GJ)<br>Eitem i'w drafod pan fydd clerc newydd wedi ei benodi. Yr oedd yr hen glerc yn ymwybodol o'r sefyllfa.<br>**GJ am gysylltu efo HMRC i drafod i mater.**<br>ch)Prydles y Ganolfan<br>Mae copi o'r brydles ar gael.<br>• **JG am anfon copi o'r brydles derfynol wedi ei harwyddo.**<br>d) Sharepoint (GJ)<br>Sharepoint wedi ei osod bellach a'r dogfennau i gyd ynddo a phob cynghorydd wedi cael e-bost cynghorydd. Diolchwyd i GJ am ei waith.<br>Nododd GJ bod cofnodion cyfarfod blynyddol 2024 ar goll. Pawb i chwilio rhag ofn eu bod ganddon ni.<br>GJ yn dal i drïo cael gwared â'r hen e-bost, - problem oherwydd bod y cwmni yn UDA. |
| **6.** | **Penodi Clerc Cyngor Cymuned Pistyll : adroddiad y Cadeirydd.** (GJ)<br><br>Nododd y cadeirydd bod dau wedi dangos diddordeb yn y swydd.<br><br>Diolchodd JG am y gwaith mae GJ wedi ei wneud. |

| | |
|---|---|
| | Nodwyd bod clerc cyngor arall wedi datgan na fyddai yn derbyn llai na £17 yr awr ond roedd y pwyllgor yn sylweddoli nad oedd posib cymharu cynghorau gan bod gwaith bob cyngor yn wahanol. |
| 7. | **Archwiliad Allanol** (GJ)<br><br>Wedi ei sortio erbyn hyn er bod anfonebau ar goll. |
| 8. | **Gwefan ccpistyll.cymru –**<br><br>Y wefan wedi ei diweddaru efo lluniau, polisïau, cofnodion a.y.y.b.<br><br>Gwybodaeth am yr ardal wedi ei osod ond angen ychydig mwy o luniau os oes rhai.<br><br>JG yn awgrymu y gellid ychwanegu gwybodaeth am ddigwyddiadau a gweithgareddau yn y pentrefi.<br><br>Rhanwyd e-bost newydd i'r cynghorwyr. |
| 9. | **Ceisiadau Cynllunio**<br><br>Cais **C25/0295/43/L** wedi ei drafod ar zoom ond dim digon yn y cyfarfod. Cyngor wedi rhoi estyniad i ymateb.<br><br>Nid oedd gan un cynghorydd wrthwynebiad i'r cais.<br><br>Trafodwyd oedd y tir yn dir Nant, tir comin neu yn rhan o dir tai Uchaf, Nant.<br><br>Trafodwyd maint yr adeilad ac oedd angen amdano.<br><br>Trafodwyd ei fod yng nghefn gwlad agored ac yn bell o ffiniau naturiol y pentref.<br><br>Mae hen fynwent hefyd yn rhywle yn yr ardal yna.<br><br>Nodwyd nad oedd gwrthwynebiad gan yr AHNE.<br><br>• **Penderfynwyd yn unfrydol bod y cyngor yn gwrthwynebu'r cais ac, yn absenoldeb clerc, y byddai SP yn llunio ymateb byr i'r cais yn nodi y pwyntiau uchod.** |
| 10. | **Gohebiaeth :**<br><br>Mae'r cyngor yn trafod y mater lôn Rhosydd efo adran y gwasanaeth traffic er mwyn edrych ar y posibilrwydd o osod arwyddio ffyrdd.<br><br>• **JG yn mynd yn ôl at Steffan Jones.** |
| 11. | **Hyfforddiant Unllais Cymru**<br><br>Wedi colli'r cwch gan ein bod yn hwyr yn ymateb.<br><br>Penwyd nos Lun 6:30 – 8 a JG i anfon ymlaen i Unllais. 9,16,23, 30 Mehefin. Penderfynwyd ar 16 Mehefin fel dyddiad gorau. |
| 12. | **Cyllidol** |

| | |
|---|---|
| | GJ yn cysylltu efo HMRC ynglŷn â chofnodi cyflog clerc.<br><br>Angen talu anfonebau Microsoft am y Sharepoint. Bydd y rhain yn gostau blynyddol.<br><br>Angen talu anfonebau GJ am y gwaith clercio yn unol a phenderfyniad y cyngor i ofyn i GJ wneud y gwaith.<br><br>**Ceisiadau Grant**<br><br>• **Penderfynwyd rhoi arian fel a ganlyn:**<br>**CFfI £250**<br>**Llythyr Llithfaen £200**<br><br>**Diweddaru Asedau**<br><br>Angen plinth newydd i'r fainc ar y groes. Prynu dwy fainc newydd – un i Pistyll a'r llall ar y groes. Rhaid gofalu bod y fainc yn ffitio yn y groes gan bod y lle yn gyfyng.<br><br>• **Penderfynwyd tynnu un Pistyll. GJ i ffendio pris manic ac archebu mis nesaf.** |
| 13. | **Unrhyw Fater Arall /materion lleol**<br><br>Penderfynodd y pwyllgor ofyn i GJ wneud gwaith clerc yn y cyfnod anodd yma ac iddo wneud anfoneb am y gwaith. SP yn cynnig OR yn eilio.<br><br>Mae bocs o bethau gan Gillian angen eu sortio/cadw. Nododd JG bod angen noson i ddidoli y pethau.<br><br>• **JG am holi beth oedd angen ei wneud efo nhw ac yna cael noson i'w didoli.**<br><br>Mae GJ yn amau bod yswiriant y cyngor yn dod i ben ddechrau Mehefin.<br><br>• **Penderfynwyd y byddai GJ yn sortio'r yswiriant ac anfon anfoneb i OR dalu**.<br><br>SP wedi bod mewn cyfarfod yn Sarn ac awydd i ffurfio partneriaeth ar gyfer cydweithio fel cynghorau. Rhannodd SP brif bwyntiau y cyfarfod.<br><br>• **SP i fynegi ein bod yn fodlon ffurfio cyfarfod anffurfiol i weld y ffordd ymlaen.**<br><br>Tri pris wedi dod i law am faes parcio'r Ganolfan:<br><br>£3 200, £4 800 £5 800.<br><br>Haydn Jones yw'r pris rhataf yn cynnwys bollards, marcio ac arwyddion.<br><br>Nid oes arian wedi bod yn dod i mewn i goffrau'r Ganolfan ers dros dair blynedd. |

| | |
|---|---|
| | Cafwyd trafodaeth helaeth ar faint o arian sydd yn weddus i wario a nodwyd nad oedd arian wedi ei roi i'r Ganolfan ers pedair blynedd. Trafodwyd bod modd efallai codi precept y flwyddyn nesaf.<br><br>• **Penderfynwyd clustnodi £3 000 ar gyfer y gwaith. (OR yn cynnig WJ yn eilio).** |
| **14.** | **Cyfarfod nesaf :**<br>Mehefin 10, 2025 am 7pm yn y Ganolfan Llithfaen.<br>• |